

Ymhellach i'm neges ebost ar 7 Gorffennaf 2015, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'r cais am wybodaeth a gyflwynwyd gennych ar 6 Gorffennaf 2015 ac y bu i chi ei egluro ar 13 Gorffennaf 2015, a oedd yn ymwneud â'r canlynol:

- 1. Beth yw cyfanswm y milltiroedd y mae staff sy'n gweithio gartref wedi eu teithio, a faint o arian sydd wedi'i dalu i gyd?**
- 2. O'r staff sy'n gweithio yn y swyddfa yn Abertawe, faint ohonynt sydd wedi hawlio treuliau teithio i fynychu cyfarfodydd yn eich swyddfa yng Nghaerdydd? Faint o filltiroedd y maent wedi'u teithio a faint o arian sydd wedi'i dalu iddynt?**
- 3. Faint o staff sy'n camdefnyddio'r system dreuliau drwy ymweld â swyddfa arall, er mwyn gallu hawlio treuliau am wneud hynny, pan fydd taith o'r fath yn ddiangen?**
- 4. Beth yw cyfanswm y milltiroedd a deithiwyd gan staff y cwmni?**

Bu i chi egluro bod eich cais yn ymwneud â'r cyfnod o fis Ionawr 2015 – i fis Mehefin 2015, ac roeddech am wybod cyfanswm y milltiroedd yr hawliwyd treuliau ar eu cyfer.

Dyma fy atebion i bob un o'ch cwestiynau:

1. Cyfanswm y milltiroedd yr hawliwyd treuliau ar eu cyfer = 48,085. Y cyfanswm a dalwyd = £8,633.25
2. Ni allwn ddarparu ymateb pendant gan mai dim ond ers i'r system dreuliau newydd ddod i rym ar 1 Ebrill 2015 y mae'r rheswm am y daith yn cael ei nodi'n rhan o'r drefn arferol. Cyn y dyddiad hwnnw, nid oedd y rheswm dros deithio yn cael ei gofnodi o reidrwydd ar yr hen system. Y milltiroedd a gofnodwyd yw 710 o filltiroedd a thalwyd £132.98.
3. Nid yw'r wybodaeth hon ar gael gennym gan nad ydym yn dosbarthu'r wybodaeth sydd gennym am dreuliau yn ôl y meini prawf "camdefnyddio treuliau" neu "daith ddiangen".
4. 381,446.

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw eithriadau, fodd bynnag os hoffech gwyno am y modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais mae croeso i chi anfon ebost neu lythyr ataf.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir

Ian Phillips